

# **SL(6)313 – Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2023**

## **Cefndir a diben**

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yn gwneud darpariaeth ynghylch hyd y diwrnod ysgol, sydd fel arfer yn cael ei rannu yn ddwy sesiwn, ac i ysgolion gyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

Mae'r Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2023 yn diwygio Rheoliadau 2003. Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn:

- Diwygio'r diffiniad o "ysgol" i adlewyrchu nad oes mwyach unrhyw ysgolion arbennig nad yw awdurdod lleol yn eu cynnal yng Nghymru;
- Lleihau'r nifer lleiaf o sesiynau ysgol y mae'n rhaid eu cynnal yn ystod y flwyddyn ysgol 2022-2023 er mwyn ystyried y gwyliau banc ychwanegol i nodi Angladd Gwladol Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II a Choronni Ei Fawrhydi Brenin Siarl III; a
- Darparu ar gyfer diwrnod Hyfforddiant mewn Swydd ychwanegol ym mhob un o'r blynyddoedd ysgol 2022-2023, 2023-2024 a 2024-2025.

Mae'r Rheoliadau'n mynnu bod y diwrnod HMS ychwanegol yn cael ei ddefnyddio at ddiben dysgu proffesiynol mewn perthynas ag un neu fwy o'r canlynol:

- Lleihau effaith tlodi ar ddilyniant a chyrhaeddiad disgyblion yn yr ysgol;
- Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar gyfer disgyblion yn yr ysgol;
- I ddarparu'r cwricwlwm yn yr ysgol o dan Ran 2 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

## **Gweithdrefn**

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## **Materion technegol: craffu**

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### 1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae paragraff 6.15 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol yn nodi effaith bosibl diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd ychwanegol ar blant a theuluoedd:

*6.15 Credwn y bydd y brif effaith ar blant a theuluoedd, yn enwedig y rhai ar incwm is. Wrth ystyried yr opsiynau, rydym wedi cymryd i ystyriaeth y cyd-destun economaidd presennol, a'r disgwyliad y bydd costau byw cynyddol a rhewi trothwyon treth incwm yn arwain at ostyngiad yn incwm gwario aelwydydd dros y blynyddoedd nesaf. Mae ein penderfyniad i gyfyngu'r diwrnodau HMS ychwanegol i un yn rhannol o ganlyniad i gynnal yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, oherwydd gallwn liniaru rhywfaint ar yr effaith drwy wneud hyn. Bydd yr effaith ar blant fel grŵp yn un tymor byr gan y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn colli diwrnod o ysgol ar y cyd. Fodd bynnag, yn y tymor hir bydd y diwrnod HMS ychwanegol hwn yn galluogi gweithredu'r cwricwlwm newydd a diwygiadau eraill yn llwyddiannus, gan wella safon ac ehangder yr addysg a gânt.*

Mae paragraffau 6.26 a 6.29 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi na fydd plant cymwys yn gallu cael prydau ysgol am ddim ar y diwrnod HMS ychwanegol, ac y gallai plant ysgolion cynradd hefyd gollir cyfle i gael y ddarpariaeth brecwast am ddim. Daw paragraff 6.30 i'r casgliad:

*6.30 Fodd bynnag, mae'r effaith a geir o fethu â chael mynediad at ddarpariaeth bwyd ar 1 o 190 o ddiwrnodau tymor (yn ychwanegol at y 5 diwrnod HMS presennol) yn cael ei orbwyso gan y manteision i addysg y dysgwyr o gyflwyno'r diwrnod HMS ychwanegol.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

